

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



4. Gwirfoddolwyr

4.9 Arferion Diogelu a Rheoli Da

Rhaid i les plant ac oedolion fod yn brif ystyriaeth unrhyw fudiad gwirfoddol sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth wella bywydau pobl agored i niwed, ond nid yw pob gwirfoddolwr yn addas ar gyfer y math yma o waith, ac ar rai adegau, gallant greu bygythiad. Golyga hyn fod angen gweithredu asesiadau risg ar gyfer gwaith sy'n cynnwys grwpiau agored i niwed, mabwysiadu arferion gweithio diogel, mynnu recriwtio a dethol da, a defnyddio systemau arolygu cadarn.

Mae'r daflen wybodaeth hon hefyd yn ychwanegu at egwyddorion cyffredinol taflen wybodaeth 'Recriwtio, dethol a sefydlu gwirfoddolwyr'.

Datblygu arferion rheoli da

Asesiad risg

Mae rheoli risg yn ymwneud â delio â ffactorau ansicr a lleihau neu gael gwared ar ffactorau risg. Mae'r broses rheoli risg yn cynnwys nodi risgiau, penderfynu pa mor ddifrifol neu debygol ydynt, a rheoli'r risgiau hynny.

Pan fydd gwirfoddolwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant, neu pan fyddant yn mynd i gartrefi pobl, mae'n rhaid i'r mudiad wneud popeth sy'n bosib er mwyn amddiffyn y gwirfoddolwyr a'r unigolyn agored i niwed rhag anaf, rhag colled, a rhag cael eu cam-drin.

Dyma gamau priodol i'w cymryd:

- Sgrinio
- Cynefino a hyfforddi
- Asesu risg
- Cadw cofnodion
- Adolygu
- Yswiriant
- Gwirio ei gefndir gan gynnwys cael mynediad at gofnodion troseddol

Ar ôl i risgiau gael eu nodi, dylai mudiad ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ar bapur, llawlyfrau i wirfoddolwyr, llawlyfrau i ymddiriedolwyr a ffurflenni ar gyfer asesu risg a chofnodi digwyddiadau.

Dylai strategaeth gyfathrebu hefyd gael ei datblygu i sicrhau bod pawb sydd ynghlwm wrth y mudiad yn cael gwybod am y cynllun rheoli risg.

Cefnogaeth ac arolygaeth

Dylai gwirfoddolwyr gael digon o gefnogaeth ym mhob sefyllfa, er mwyn eu galluogi i gyflawni tasgau yn effeithlon ac yn hyderus. Mae cefnogaeth a goruchwyliaeth yn swyddogaethau ar wahân sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Gellir eu symleiddio orau drwy weld cefnogaeth fel rhywbeth sy'n 'canolbwyntio ar yr unigolyn' a goruchwyliaeth fel rhywbeth sy'n 'canolbwyntio ar waith'. Mae'r ddau yn hanfodol wrth reoli risg.

Dylai goruchwyliaeth fod â strwythur a dylai fod yn ffurfiol. Dylai adael i chi fyfyrion ynghylch y gwaith yng nghyswllt y safonau a'r targedau rydych chi eisoes wedi cytuno arnynt gyda'r gwirfoddolwr. Dylai pob sesiwn goruchwylid ddod i ben gyda chynllun ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Cadwch gofnodion o broblemau a phenderfyniadau a wnaed yn ystod y sesiynau hyn. Bydd y rhain yn ddefnyddiol wrth ddilyn hynt problemau a chynnydd.

Gwirio cefndiroedd

Ar gyfer rhai rolau gwirfoddol, neu fel rhan o arfer da wrth reoli risg, bydd angen darganfod hanes cofnodion troseddol a statws gwahardd darpar wirfoddolwr. Fodd bynnag, ni ddylai cofnod troseddol o reidrwydd atal gwirfoddolwr rhag gweithio gyda'ch mudiad. Bydd yn dibynnu ar natur y rôl wirfoddol ac amgylchiadau a chefnidir y troseddau a bydd angen i unrhyw fudiad sy'n defnyddio'r cyfryw wiriadau gael polisi ar recriwtio cyn-droseddwr.

Mae taflen wybodaeth 'Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd' yn rhoi'r manylion llawn.

Diogelu

Polisiâu a Gweithdrefnau

Rhaid i bob mudiad gwirfoddol fabwysiadu polisi ysgrifenedig sy'n datgan ei bolisi ar ddiogelu lles y plant a/neu'r oedolion agored i niwed mae'n gweithio gyda nhw. Dylai'r polisi ddatgan yn glir ddyletswydd pawb a gyflogir gan y mudiad, neu sy'n rhan ohono, i atal unrhyw gamdriniaeth o unrhyw blant a/neu oedolion agored i niwed maent mewn cysylltiad â nhw.

Mae'n hanfodol bod yr holl aelodau o staff a gwirfoddolwyr, eu rheolwyr llinell neu eu goruchwylwyr, a llunwyr polisiâu yn cael eu hyfforddi mewn materion yn ymwneud â diogelu plant, materion amddiffyn plant a Diogelu Oedolion Agored i Niwed. Rhaid i'r holl aelodau o staff a gwirfoddolwyr yn y mudiad fod yn destun gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer diogelu plant a/neu oedolion sy'n agored i niwed o ganlyniad i'r gwasanaethau maent yn ei gael. Mae'n ofynnol i fudiadau gael llinellau atebolrwydd clir fel ffordd o ddiogelu grwpiau agored i niwed. Dylai mudiadau sicrhau bod y rheini sy'n uniongyrchol gyfrifol am staff sydd mewn cyswllt â phlant a/neu oedolion yn defnyddio arferion rheoli da er mwyn atal neu ganfod niwed.

Honiadau neu amheuan o gamdriniaeth

Dylai mudiad baratoi a chyhoeddi canllawiau ar sut i ddelio â datgelu neu ganfod achos o gam-drin.

Dylai'r canllawiau hyn gynnwys:

- rhywbeth i'w hatgoffa o'r ddyletswydd i atal achosion o gam-drin, gan gynnwys y ddyletswydd i adrodd unrhyw achos o gam-drin a ddatgelir neu sy'n cael ei amau;
- canllawiau ar beth yw cam-drin a sut mae ei adnabod;
- cyfarwyddiadau ynghylch pwy i roi gwybod iddo os datgelir neu canfyddir achos o gam-drin.

Cyfrinachedd a chyfathrebu gwybodaeth

Dylai'r dull o ddelio â gwybodaeth gyfrinachol fod yr un fath, ni waeth a fwriedir datgelu gwybodaeth yn fewnol mewn un mudiad ynteu rhwng asiantaethau. Bydd yr angen i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i eraill o fewn eich mudiad eich hun yn codi'n amlach na'r angen i ddatgelu i asiantaethau eraill.

Mae'n arfer da i rannu gwybodaeth gyda theuluoedd, a dylai fod rhagdybiaeth o blaid bod yn agored, oni bai y byddai hynny'n peryglu diogelwch. Mae'n bosib bod yn rhaid i rywfaent o wybodaeth sydd gan bobl broffesiynol gael ei thrin yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rhannu o flaen aelodau o deulu neu ofalwyr, megis gwybodaeth yn ymwneud ag aelod penodol o deulu a fyddai'n gallu effeithio ar ymchwiliad troseddol.

Dylai'r datganiad hwn amlygu'r rhwymedigaethau cyfreithiol i ddiogelu Plant a'r arfer da wrth ddiogelu oedolion. I fudiadau sy'n un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod lleol yn unol â'r diffiniad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ceir hefyd ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod lleol am oedolyn sy'n wynebu risg neu blentyn sy'n wynebu risg.

Diffinnir oedolyn sy'n wynebu risg fel oedolyn ag anghenion gofal a chymorth sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael ei niweidio, ei gam-drin neu ei esgeuluso ac na all, oherwydd ei anghenion gofal a chymorth, ei amddiffyn ei hun. Mae plentyn sy'n wynebu risg yn golygu plentyn ag anghenion gofal a chymorth sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael ei niweidio, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Dylai unigolion sy'n gweithio ar y cyd â theuluoedd a/neu ofalwyr ddod i ddealltwriaeth gyffredin yn ystod pob cam o'u hymyriad ynghylch pa wybodaeth y dylid ei datgelu i'r teulu a/neu'r gofalwyr. Dylai unrhyw resymau am ddal gwybodaeth yn ôl fod yn glir ac wedi'u cofnodi. Mewn amgylchiadau o'r fath, diogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r oedolyn agored i niwed ddylai fod yr ystyriaeth bwysicaf.

Bydd adegau pan fydd raid i unigolyn benderfynu a yw'r amgylchiadau yn cyfiawnhau datgeliad neu a ydynt yn berthnasol i unrhyw ofynion deddfwriaethol eraill megis y ddyletswydd statudol i gyfeirio at y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn rhai amgylchiadau neu unrhyw drefniadau megis Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) – fframwaith rhannu gwybodaeth sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer Rhannu Data y Comisiynydd Gwybodaeth.

Gwybodaeth bellach

Arferion Diogelu WCVA

Ffôn: 0800 2888 329

safeguarding@wcva.org.uk

www.wcva.org.uk

WASPI

www.waspi.org

Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)

www.nspcc.org.uk

Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

www.ssia.org.uk

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service


Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p>Cyngor Trydydd Sector Caerdydd <i>Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH</i> Elusen Gofrestredig: 1068623</p> <p>Ffôn: 029 2048 5722 enquiries@c3sc.org.uk Ffacs: 029 2046 4196 www.c3sc.org.uk</p>	 <p>WcVA CgGC</p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli Wedi ei ddiweddarau: 21/08/2019</p>	<p>Ffôn: 0300 111 0124 www.wcva.cymru</p>